

## Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

---

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd	Graeme Francis – Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Mawrth, 13 Rhagfyr 2016	Kath Thomas – Dipwrwy Glerc 0300 200 6565
Amser: 09.00	<a href="mailto:SeneddDeisebau@cynulliad.cymru">SeneddDeisebau@cynulliad.cymru</a>

---

- 1 **Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant**  
(Tudalennau 1 – 24)
  
- 2 **Deisebau newydd**
  - 2.1 **P-05-721 Deiseb Terfyn Cyflymder Penegoes**  
(Tudalennau 25 – 31)
  - 2.2 **P-05-722 Diogelu Anghenion Addysgol Arbennig**  
(Tudalennau 32 – 41)
  - 2.3 **P-05-724 Hawliau i ofal iechyd sylfaenol yn Gymraeg**  
(Tudalennau 42 – 45)
  - 2.4 **P-05-725 Rhoi Rhyddhad Ardrethi i Awdurdodau Lleol ar gyfer Cyfleusterau Hamdden a Diwylliannol**  
(Tudalennau 46 – 53)
  - 2.5 **P-05-726 Rhoi Rhyddhad Ardrethi i Awdurdodau Lleol ar gyfer Cyfleusterau Hamdden a Diwylliannol**  
(Tudalennau 54 – 61)
  - 2.6 **P-05-727 Arian i dalu ffi cofrestru Cyngor y Gweithlu Addysg ar ran Gweithwyr Cymorth Dysgu mewn Ysgolion**  
(Tudalennau 62 – 68)
  - 2.7 **P-05-728 Diogelu Cyllid Teuluoedd yn Gyntaf**  
(Tudalennau 69 – 75)



### **3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol**

#### **Addysg**

**3.1 P-04-628 Mynediad at Iaith Arwyddion Prydain i bawb**  
(Tudalennau 76 – 77)

**3.2 P-05-707 Rhaid i Hyfforddiant Athrawon Gynnwys Hyfforddiant Statudol ar Awtistiaeth**  
(Tudalennau 78 – 80)

#### **Amgylchedd a Materion Gwledig**

**3.3 P-04-683 Coed mewn Trefi**  
(Tudalennau 81 – 93)

#### **Economy and Infrastructure**

**3.4 P-05-714 Cynnwys Gorsaf ar Gyfer Mynachdy a Thal-y-bont fel Rhan o Unrhyw Gynnig ar Gyfer Metro Caerdydd.**  
(Tudalennau 94 – 95)

#### **Iechyd**

**3.5 P-04-564 Adfer Gwlâu i Gleifion, Gwasanaeth Mân Anafiadau ac Uned Pelydr-X i Ysbyty Coffa Ffestiniog**  
(Tudalennau 96 – 101)

**3.6 P-04-621 Cadw'r Uned Famolaeth dan Arweiniad Ymgynghorwyr yn Ysbyty Glan Clwyd ar Agor**  
(Tudalennau 102 – 104)

**3.7 Papur i'w nodi**  
(Tudalennau 105 – 109)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## **P-05-721 – Deiseb Terfyn Cyflymder Penegoes**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Isabel Bottoms, Peter Bottoms and Sarah Holgate ar ôl casglu 298 llofnod bapur.

### **Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gyflwyno terfyn cyflymder 30 milltir yr awr drwy bentref Penegoes (o arwydd pentref Penegoes o gyfeiriad Machynlleth, i ochr arall mynedfa newydd arfaethedig Maes Carafannau Maesperthi) ar yr A489 tuag at y Drenewydd; a therfyn cyflymder 40 milltir yr awr o Fachynlleth i Benegoes.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

Sir Drefaldwyn

Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Deiseb: P-05-721 Terfyn Cyflymder Penegoes

Y Pwyllgor Deisebau | 13 Rhagfyr 2016  
Petitions Committee | 13 December 2016

### Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-721

Teitl y ddeiseb: Deiseb Terfyn Cyflymder Penegoes

Testun y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gyflwyno terfyn cyflymder 30 milltir yr awr drwy bentref Penegoes (o arwydd pentref Penegoes o gyfeiriad Machynlleth, i ochr arall mynedfa newydd arfaethedig Maes Carafannau Maesperthi) ar yr A489 tuag at y Drenewydd; a therfyn cyflymder 40 milltir yr awr o Fachynlleth i Benegoes.

### Y cefndir

Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod priffyrdd ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd yng Nghymru, gan gynnwys yr A489. Cyfrifoldeb [Asiant Cefnffyrdd De Cymru](#) ac [Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru](#) yw gwaith cynnal a chadw'r rhwydwaith.

Mae gwefan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn [disgrifio ffordd yr A489 fel ffordd strategol o'r dwyrain i'r gorllewin sydd o bwys yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol](#). Mae'r ffordd yn estyn o'r A483 yn y Drenewydd hyd at Fachynlleth, ac fe'i rhennir yn ddwy ran ger yr A470. Mae'r rhan ddeheuol yn cysylltu'r A483 yn y Drenewydd â'r A470 yng Nghaersws. Mae'r rhan ogleddol yn cysylltu'r A470 yng Nglantwymyn â'r A487 ym Machynlleth. Priffyrdd sengl yw'r ddwy ran, ac mae eu lled a'u safon yn amrywio.

Â'r wefan ymlaen i ddweud mai 8.5 cilomedr o hyd (5 milltir) yw rhan ddeheuol cefnffordd yr A489, ac ei bod yn cysylltu'r Drenewydd a Chaersws. Mae rhan ogleddol cefnffordd yr A489 yn 9 cilomedr o hyd (5.5 milltir) ac mae'n cysylltu Glantwymyn a Machynlleth. Gellir gweld map o holl rwydwaith cefnffyrdd Cymru [yma](#).

Mae'r [Sefydliad Diogelwch Ffyrdd](#) yn elusen ar gyfer lleihau nifer yr anafiadau ar ffyrdd y DU, ac mae'n bartner i [Raglen Asesu Ffyrdd Ewrop](#), sy'n gymdeithas ddi-elw i hybu ffyrdd sy'n fwy diogel. Mae'r Sefydliad Diogelwch Ffyrdd yn cyhoeddi canlyniadau blynyddol Prydain yn yr

asesiad a gynhelir gan Raglen Asesu Ffyrdd Ewrop. Mae'r Rhaglen yn asesu diogelwch ffyrdd Prydain, ac yn darparu **map risg** sy'n asesu diogelwch. Gellir gweld adroddiadau blynyddoedd blaenorol ar gyfer [2013](#), [2014](#) a [2015](#) ar wefan y Sefydliad.

Mae'r mapiau risg yn rhoi gradd allan o bum gwahanol lefel o risg, gan ddangos y risg ystadegol o farwolaeth neu anaf difrifol ar y ffordd. Mae'r Sefydliad yn disgrifio'r fethodoleg a ddefnyddir fel a ganlyn:

The risk is calculated by comparing the frequency of road crashes resulting in death and serious injury on every stretch of road with how much traffic each road is carrying. For example, if there are 20 crashes on a road carrying 10,000 vehicles a day, the risk is 10 times higher than if the road has the same number of collisions but carries 100,000 vehicles.

Yn 2013, aseswyd bod y risg ar gyfer rhan ogleddol yr A489 (o'r A470 yng Nglantwymyn hyd at yr A487 ym Machynlleth) yn **isel i ganolig** (yn seiliedig ar ddata 2007–2011). Yn 2014, bu i'r risg **gynyddu i risg ganolig** (data 2010–2012) ac roedd yr asesiad risg diweddaraf yn 2015 yn nodi bod risg y ffordd yn **ganolig i uchel** (data 2011–2013).

## Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae [Fframwaith Diogelwch Ffyrdd Llywodraeth Cymru](#), a gyhoeddwyd yn 2013, yn nodi targedau diogelwch ffyrdd y Llywodraeth a'r camau gweithredu cysylltiedig. Mae Llywodraeth Cymru am weld yr ystadegau canlynol ar gyfer holl ffyrdd Cymru erbyn 2020, o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer 2004–2008:

- 40 y cant yn llai yn cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru;
- 25 y cant yn llai o feicwyr modur yn cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru; a
- 40 y cant yn llai o bobl ifanc (16–24 oed) yn cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru.

Mae'r fframwaith yn nodi grwpiau sy'n agored i niwed, ac mae'n ystyried beth sy'n achosi damweiniau, gan greu ffyrdd sy'n fwy diogel. Mae hefyd yn nodi'r trefniadau o ran dull a threfniadau llywodraethu.


Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r terfynau cyflymder ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd, gan ystyried natur y ffordd, diogelwch y ffordd a'r defnydd a wneir o'r ffordd gan y gymuned, yn unol â'r canllawiau ar gyfer [Pennu Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru](#) (PDF 197kb). Defnyddir y canllawiau hyn i bennu'r holl derfynau cyflymder lleol ar gefnffyrdd a ffyrdd gwledig (heb gynnwys traffyrdd), boed yn briffordd sengl neu'n briffordd ddwbl mewn ardaloedd dinesig ac ardaloedd gwledig fel ei gilydd.

Mae gwefan yr [Adolygiad o Ddiogelwch Cefnffyrdd](#) yn nodi manylion am ganlyniadau'r adolygiad ar derfynau cyflymder ar y rhwydwaith cefnffyrdd. Nodir ar y wefan fod diogelwch

ar gefnffyrdd yn cael ei fonitro'n barhaus i chwilio am unrhyw welliannau posibl y gellir eu gwneud, gan adolygu terfynau cyflymder yn gyson.

Yn yr adolygiad hwn, mae'r rhan o'r gefnffordd A489 y cyfeirir ati yn y ddeiseb yn cynnwys tair rhan wahanol, sef:

- Dechrau'r parth 30mya ym Machynlleth hyd at gyffordd y Cloc ar yr A489;
- Diwedd y parth 40mya ym Mhenegoes hyd at ddechrau'r parth 30mya ym Machynlleth ar yr A489; a
- Dechrau'r parth 40mya ym Mhenegoes hyd at ddiwedd y parth hwnnw ar yr A489.



Ffigur 1. Map yn dangos y rhannau y cyfeirir atynt yn yr Adolygiad o Ddiogelwch Cefnffyrdd rhwng Machynlleth a Phenegoes. Ffynhonnell: Lluniwyd gan Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad gan ddefnyddio gwybodaeth a gafwyd o wefan Traffig Cymru [ar 23 Tachwedd 2016]

Daeth yr adolygiad i'r casgliad y dylid cadw at y terfyn cyflymder o 30mya ar gyfer dechrau'r parth 30mya ym Machynlleth hyd at gyffordd y Cloc ar yr A489, ond y dylid gosod terfyn cyflymder rhan-amser o 20mya y tu allan i Ysgol Gynradd Sirol Machynlleth fel rhan o raglen dreigl 2015/16, Llwybrau Diogel at Ysgolion ar Gefnffyrdd (gweler isod). Yn ail, nododd yr adolygiad y dylid cadw at y terfyn cyflymder o 60mya ar gyfer diwedd y parth 40mya ym Mhenegoes hyd at ddechrau'r parth 30mya ym Machynlleth ar yr A489, ac y dylid cynnal

astudiaeth fanwl fel rhan o raglen o waith peirianyddol sy'n flaenoriaeth, gan ddechrau yn 2019/20 ar y cynharaf. Yn olaf, daeth yr adolygiad i'r casgliad y dylid cadw at y terfyn cyflymder o 40mya ar gyfer dechrau'r parth 40mya ym Mhenegoes hyd at ddiwedd y parth hwnnw ar yr A489.

Mae [Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol](#) Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i “gyflawni'r canlyniadau sydd wedi'u cyflwyno yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru” hyd at 2020 a thu hwnt, gan gyflawni rhaglen o welliannau diogelwch ffyrdd ar gyfer ysgolion ar gefnffyrdd. Yn y [wybodaeth ddiweddaraf ysgrifenedig](#) a roddwyd i holl Aelodau'r Cynulliad ynghylch Llwybrau Diogel at Ysgolion ar Gefnffyrdd ar 1 Hydref 2015, cadarnhaodd Edwina Hart, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y pryd, fod 41 ysgol ychwanegol a allai gael terfyn cyflymder rhan-amser o 20mya fel rhan o raglen dreigl tair blynedd, ynghyd â darpariaeth o £4.5 miliwn i gyflawni'r gwaith. Roedd yr atodiad cynorthwyol a ddaeth ynghlwm â'r wybodaeth ddiweddaraf yn nodi bod creu parth â therfyn cyflymder rhan-amser o 20mya ger Ysgol Gynradd Sirol Machynlleth yn flaenoriaeth yn 2015/16.

Mae'r llythyr at y Cadeirydd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ynghylch y ddeiseb hon yn cyfeirio at gasgliad yr Adolygiad o Ddiogelwch Cefnffyrdd a nododd fod terfyn cyflymder yr A489 ger Penegoes fel y mae ar hyn o bryd yn addas ac y dylid ei gadw fel y mae. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod diogelwch a dibynadwyedd y rhwydwaith cefnffyrdd yn un o'i brif flaenoriaethau, ac y caiff manylion y ddeiseb hon eu hystyried fel rhan o'r gwaith sy'n cael ei gynnal i adolygu data am ddamweiniau a phennu'r angen am welliannau yn niogelwch ffyrdd yn gyson.

## Camau gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Nid yw'r mater hwn wedi cael ei ystyried eto gan y Cynulliad.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir ar adeg ei gyhoeddi. Fodd bynnag, dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Ken Skates AC/AM  
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith  
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-721  
Ein cyf/Our ref KS/06957/16

Mike Hedges AM  
Chair  
Petitions Committee

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

5 November 2016

Dear Mike,

Thank you for your letter of 20 October regarding Penegoes Speed Limit Petition P-05-721.

Our Trunk Road Safety Review concluded that the current speed limit on the A489 near Penegoes is appropriate and should be retained. You can see the full results of the review online using the following link: <http://www.traffic-wales.com/Trunkroadsafetyreview.aspx>.

Speed limits on the trunk road network have been reviewed in line with the Setting Local Speed Limits in Wales guidance, which you can see on our website using the following link: <http://gov.wales/docs/det/publications/091105speedlimitguidelinesen.pdf>.

Ensuring the safety and reliability of the trunk road network is one of my key priorities and we regularly review collision data to establish the need for road safety improvements. I have passed the details of the petition to my officials, who will take it into consideration as part of this ongoing work.

Yours ever,  
Ken

**Ken Skates AC/AM**  
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith  
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru)  
[Correspondence.Ken.Skates@gov.wales](mailto:Correspondence.Ken.Skates@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 30

**P-05-721 Penegoes Speed Limit Petition - Correspondence from the  
Petitioner to the Committee, 07.12.16**

I wanted to draw attention to the fact that a traffic monitoring scheme is now in place within the village signs for Penegoes but outside the 40 MPH so there will soon be actual figures of the speeds of motorists and what type of vehicle they are driving.

This has been put in place by Gwynedd County Council.

The figures will be forwarded to you as soon as available.

Regards,

Sarah Holgate.

# Eitem 2.2

## P-05-722 – Diogelu Anghenion Addysgol Arbennig

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Nicola Butterfield, ar ôl casglu 553 llofnod bapur.

### **Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y gwariant ar y ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig yn cael ei glustnodi, gan gydnabod fod hwn yn fuddsoddiad ym mhlant Cymru, ac y dylai awdurdodau lleol gael eu cyfarwyddo i sicrhau bod lefelau digonol o gyllid ar gael fel y gall plant sydd angen gwasanaeth o'r fath fyw bywydau hapus a llawn, ac nad yw eu teuluoedd yn gorfod wynebu'r ofn o gystadlu â'i gilydd am leoedd.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

Aberafan

Gorllewin De Cymru

# Briff gan y Gwasanaeth Ymchwil: Diogelu Anghenion Addysgol Arbennig

Y Pwyllgor Deisebau | 13 Rhagfyr 2016

Rhif y ddeiseb: P-05-722

Teitl y ddeiseb: **Diogelu Anghenion Addysgol Arbennig**

Testun y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y gwariant ar y ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig yn cael ei glustnodi, gan gydnabod fod hwn yn fuddsoddiad ym mhlant Cymru, ac y dylai awdurdodau lleol gael eu cyfarwyddo i sicrhau bod lefelau digonol o gyllid ar gael fel y gall plant sydd angen gwasanaeth o'r fath fyw bywydau hapus a llawn, ac nad yw eu teuluoedd yn gorfod wynebu'r ofn o gystadlu â'i gilydd am leuedd.

## 1. Cyllid i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn defnyddio arian a roddir iddynt o dan y **Grant Cynnal Refeniw** gan Lywodraeth Cymru i ariannu addysg i ddisgyblion ag AAA. Caiff y swm o dan y Grant Cynnal Refeniw a roddir i bob awdurdod lleol er mwyn darparu gwasanaethau ar gyfer ei holl feysydd cyfrifoldeb ei gyhoeddi bob blwyddyn yn y Setliad Llywodraeth Leol.

Yn 2016-17, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfanswm o **£4.102 biliwn** o arian i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw i ddarparu **eu holl wasanaethau**. Mae hyn 1.3 y cant (£54 miliwn) yn llai nag yn 2015-16, ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau i mewn i'r setliad.

### 1.1 Arian nad yw wedi'i neilltuo

Arian **nad yw wedi'i neilltuo** yw'r Grant Cynnal Refeniw, sy'n golygu bod awdurdodau lleol yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch faint o arian y byddant yn ei wario ar faes gwasanaeth penodol megis addysg, ac o ganlyniad ar ddarpariaeth AAA er enghraifft. Mae hon yn **egwyddor sylfaenol** i gyrff llywodraeth leol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), sef y corff cyffredinol sy'n cynrychioli gyrff o'r fath, er mwyn **sicrhau y gwneir penderfyniadau sy'n lleol, yn atebol ac yn ddemocrataidd**. Fodd bynnag, mae setliad y Grant Cynnal Refeniw yn



cynnwys Asesiad ar sail Dangosyddion ar gyfer pob maes gwasanaeth, sy'n gyfrifiad tybiannol o'r hyn y mae angen i bob Cyngor ei wario er mwyn darparu lefel safonol o wasanaeth.<sup>1</sup> Nid yw'n darged gwariant a gall awdurdodau lleol benderfynu faint o arian y maent yn ei wario ar ddarpariaeth AAA er enghraifft, cyhyd ag y bônt yn bodloni unrhyw ofynion statudol sydd arnynt.

Yn 2016–17, yr **Asesiad ar sail Dangosyddion** tybiannol ar gyfer 'Addysg Arbennig' yw £215 miliwn, sy'n debyg iawn i 2015–16. At hynny, bydd rhywfaint o arian y bwriedir ei ddefnyddio ar ddarpariaeth AAA wedi cael ei gynnwys hefyd yn yr Asesiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion ar gyfer 'Meithrin a Chynradd' ac 'Uwchradd'. Yn wir, cyfanswm y gwariant gros wedi'i gyllidebu ar ddarpariaeth AAA yn 2016–17 yw **£362 miliwn**.<sup>2</sup>

Er nad yw'r mwyafrif helaeth o gyllid adnoddau llywodraeth leol yn cael ei neilltuo, mae Llywodraeth Cymru yn dal i dalu rhai grantiau penodol<sup>3</sup> i awdurdodau lleol at ddiben penodol. Mae nifer y grantiau hyn wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf fel rhan o gytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a CLIC i **symud tuag at lai o neilltuo yn gyffredinol** a mwy o benderfyniadau lleol ynglŷn â'r defnydd o adnoddau. Ar hyn o bryd, **nid oes unrhyw grantiau penodol yn ymwneud ag AAA**.

Mae rhagor o wybodaeth gyffredinol am y ffordd y caiff ysgolion yng Nghymru eu hariannu ar gael ym mhapur briffio'r Gwasanaeth Ymchwil, *[Hysbysiad hwylus ar gyllid ysgolion](#)* (Gorffennaf 2016).

## 2. Trefniadau rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion

Mae awdurdodau lleol yn ariannu darpariaeth AAA drwy'r dulliau canlynol:

— Y **cyllidebau dirprwyedig** y maent yn eu rhoi i ysgolion. Mae hyn yn golygu cyllidebau dirprwyedig i ysgolion arbennig lle y tybir bod yr holl wariant ar AAA a **dyraniadau tybiannol ar gyfer AAA** o fewn y cyllidebau dirprwyedig ar gyfer ysgolion prif ffrwd (tybiannol am mai cyfrifoldeb pob ysgol yw penderfynu faint yn union y mae'n ei wario ar AAA). Mae cyllid dirprwyedig yn cyfrif am **73 y cant** o gyfanswm y gwariant AAA sydd wedi'i gyllidebu yn 2016–17.

<sup>1</sup> Rhestrir yr Asesiadau ar sail Dangosyddion ar gyfer 2015-16 yn nhabl 4d o *[dablau Excel](#)* y Setliad Llywodraeth Leol sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru, Datganiad Ystadegol Cyntaf: *[Gwariant wedi'i gyllidebu ar ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig \(AAA\): 2016-17](#)*, 30 Mehefin 2016, t1

<sup>3</sup> Rhestrir grantiau penodol yn Nhabl 9 o *[dablau Excel](#)* y Setliad Llywodraeth Leol, sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.



— Drwy arian y maent yn ei **gadw'n ganolog** o fewn Cyllideb Addysg yr Awdurdod Lleol neu'r Gyllideb Ysgolion. Mae **27 y cant** o'r gwariant AAA yn cael ei gadw'n ganolog gan awdurdodau lleol yn 2016–17. Y rheswm am hyn yw oherwydd y gallai fod **yn fwy effeithlon ac effeithiol** darparu neu gomisiynu rhai gwasanaethau, er enghraifft ymyriadau arbenigol, ar lefel awdurdod lleol yn hytrach nag ar lefel yr ysgol.

## 2.1 Pennu cyllidebau ysgolion

O dan ddarpariaethau *Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998*, mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r fframwaith cyfreithiol y mae awdurdodau lleol yn dyrannu eu gwariant ar addysg i ysgolion yn unol ag ef. Nodir y fframwaith yn *Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010*. Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddyrannu gwariant i dair cyllideb, Cyllideb yr Awdurdod Lleol, y Gyllideb Ysgolion a'r Gyllideb Ysgolion Unigol.

Mae rheoliadau 2010 yn nodi bod yn rhaid i'r Gyllideb Ysgolion Unigol gael ei dyrannu ymhlith ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod ar ffurf cyfrannau cyllidebol, gan ddefnyddio fformiwla ariannu a bennir yn lleol. **Mae'n rhaid i 70 y cant o'r arian gael ei ddsbarthu ar sail nifer y disgyblion.** Yn eu fformiwla, gall awdurdodau lleol bwysoli nifer y disgyblion yn ôl nifer o ffactorau gan gynnwys AAA.

## 3. Ystadegau ynglŷn ag ariannu

Mae'r tablau isod yn cynnwys gwybodaeth am gyllid AAA a gallent fod yn berthnasol i drafodaethau'r Pwyllgor ynglŷn â'r ddeiseb hon.

- Dengys tabl 1 faint o arian roedd awdurdodau lleol wedi'i gyllidebu ar gyfer darpariaeth AAA fel cyfanswm, yn ogystal â'r swm fesul disgybl (pob disgybl nid dim ond y rhai ag AAA). Mae hyn hefyd yn dangos y **gyfradd ddirprwyo**, h.y. faint o gyllidebau AAA awdurdodau lleol a gafodd eu trosglwyddo'n uniongyrchol i ysgolion.
- Mae tabl 2 yn dadansoddi'r data hyn yn ôl awdurdod lleol ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf, sef 2016–17.

Tabl 1: Gwariant gros sydd wedi'i gyllidebu ar ddarpariaeth AAA gan awdurdodau lleol yng Nghymru



	<u>£ Miliwn Gwariant gros wedi'i gyllidebu ar ddarpariaeth AAA</u>	<u>£ Gwariant gros wedi'i gyllidebu fesul disgybl ar ddarpariaeth AAA</u>	<u>% a ddirprwywyd i gyllidebau ysgolion unigol</u>
<b>2016-17</b>	<b>361.737</b>	<b>800</b>	<b>73%</b>
2015-16	356.306	789	72%
2014-15	357.099	792	70%
2013-14	(r) 359.217	796	69%
2012-13	346.862	769	67%
2011-12	(r) 347.100	770	60%
2010-11	341.755	754	55%

(Ffynhonnell a nodiadau drosodd, o dan Dabl 2)

**Tabl 2: Gwariant gros sydd wedi'i gyllidebu gan awdurdodau lleol ar ddarpariaeth AAA, 2016–17**



	£ Miliwn Gwariant gros wedi'i gyllidebu ar ddarpariaeth AAA	£ Gwariant gros wedi'i gyllidebu fesul disgybl ar ddarpariaeth AAA	% a ddirprwywyd i gyllidebau ysgolion unigol
Ynys Môn	9.059	975	64%
Gwynedd	13.663	830	76%
Conwy	12.436	804	84%
Sir Ddinbych	11.748	773	91%
Sir y Fflint	19.607	858	65%
Wrecsam	16.580	881	76%
Powys	15.390	870	73%
Ceredigion	7.618	812	69%
Sir Benfro	15.231	886	77%
Sir Gaerfyrddin	20.431	759	78%
Abertawe	32.493	944	67%
Castell-nedd Port Talbot	15.696	796	72%
Pen-y-bont ar Ogwr	19.236	838	72%
Bro Morgannwg	12.904	597	83%
Caerdydd	46.416	902	83%
Rhondda Cynon Taf	24.233	629	65%
Merthyr Tudful	7.648	896	74%
Caerffili	18.407	674	54%
Blaenau Gwent	8.770	1,004	72%
Torfaen	8.758	610	78%
Sir Fynwy	8.329	736	71%
Casnewydd	17.083	711	68%
<b>Cymru</b>	<b>361.737</b>	<b>800</b>	<b>73%</b>

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Datganiadau Ystadegol Cyntaf: [Gwariant sydd wedi'i gyllidebu ar gyfer darpariaeth AAA](#) (rhifynnau sawl blwyddyn)

Nodiadau:

- Tablau 1-2: Mae'n cynnwys dyraniadau tybiannol i ysgolion ar gyfer darpariaeth AAA fel rhan o fformiwlâu awdurdodau lleol ar gyfer dosbarthu arian i ysgolion. Cyfrifoldeb pob ysgol yw penderfynu faint o'i chyllideb ddirprwyedig y bydd yn ei wario ar AAA, a gall y gwariant gwirioneddol fod yn wahanol i'r dyraniadau tybiannol hyn.
- Tablau 1-2: Mae gwariant £ fesul disgybl yn seiliedig ar y garfan gyfan o ddisgyblion ar y gofrestr yn hytrach na dim ond disgyblion ag AAA.
- Tabl 1: Dyma ffigurau diwygiedig y gwariant gros wedi'i gyllidebu ar gyfer 2013-14 a 2011-12, a gyhoeddwyd fel rhan o ystadegau'r flwyddyn ganlynol. Ni chyhoeddwyd ffigurau diwygiedig ar gyfer y gyfradd £ fesul disgybl na'r gyfradd ddirprwyo, felly mae angen gofal wrth gymharu'r ddau faes hwn â'r cyllidebau gros ar gyfer y blynyddoedd hyn.



## 4. Diwygiadau Deddfwriaethol

Ym mis Rhagfyr 2016, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno **Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)** fel rhan o broses ddeddfwriaethol y Cynulliad. Bydd y Bil arfaethedig yn gosod system ddiwygiedig yn seiliedig ar Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn lle'r fframwaith Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) presennol. Fodd bynnag, **ni ddisgwylir i'r Bil gynnig y dylid neilltuo neu glustnodi arian**, a bydd yn cadw'r trefniadau presennol ar gyfer rhoi adnoddau i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw i ariannu darpariaeth ADY.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi cyhoeddi papur briffio yn ddiweddar, *Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yng Nghymru*, i lywio'r broses o baratoi ar gyfer y Bil a'r gwaith o graffu arno.

Ers rhai blynyddoedd bellach, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod nad yw'r system bresennol bellach yn addas at y diben.<sup>4</sup> Mae'n credu felly y dylai 'dull gweithredu mwy modern o weithio amlasiantaethol' er budd y plentyn neu'r person ifanc, a fydd yn eu cefnogi yn y daith drwy addysg a'u dewisiadau bywyd' gymryd lle 'model a gyflwynwyd fwy na 30 mlynedd yn ôl'.<sup>5</sup>

Fel y nodwyd yn ystod ei hymgyngoriad ar y Bil drafft yn 2015, mae gan Lywodraeth Cymru **dri amcan cyffredinol** ar gyfer y system arfaethedig newydd:

- **Fframwaith deddfwriaethol unedig** i gynorthwyo plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed sydd ag ADY mewn ysgolion ac mewn addysg bellach;
- **Proses integredig a chydweithredol** o asesu, cynllunio a monitro gydag ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol;
- **System deg a thryloyw** o ddarparu gwybodaeth a chyingor, ac o ymdrin â phryderon ac achosion o apêl.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

<sup>4</sup> Llywodraeth Cymru, *Cynigion deddfwriaethol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol*, Rhagair Gweinidogol (Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau), Mai 2014, t2

<sup>5</sup> Llywodraeth Cymru, *Ymlaen mewn partneriaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol: Cynigion ar gyfer diwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anghenion addysgol arbennig*, Mehefin 2012, t4





Eich cyf/Your ref P-05-722  
Ein cyf/Our ref ARD/05416/16

Mike Hedges AM  
Chair - Petitions Committee  
National Assembly for Wales  
Ty Hywel  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

16 November 2016

Dear Mike,

Thank you for your letter of 25 October to the Cabinet Secretary for Education. I am responding as this matter falls within my portfolio.

Local authorities (LAs) and schools are responsible for providing a suitable education for all learners, including those with special educational needs (SEN).

Funding to LAs for SEN provision is not ring-fenced and it is for LAs to determine how to spend their funding in order to best meet their local needs. LAs are, however, expected to work with schools to ensure school funding arrangements are effective in supporting and raising the achievement of all learners, regardless of their need.

School funding is provided to LAs by the Welsh Government via the Revenue Support Grant (RSG). Once the RSG is distributed, it is the responsibility of individual authorities to set budgets for their schools and the local provision that they support. This approach to funding is a key part of the Welsh Government's policy that LAs are best placed to deliver services in line with the requirements and circumstances of their population, to which they are accountable.

Governing bodies should, with the head teacher, decide the school's general policy and approach to meeting learners' SEN for those with and without statements. They must set up appropriate staffing and funding arrangements and oversee the school's work.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru)  
[Correspondence.Alun.Davies@gov.wales](mailto:Correspondence.Alun.Davies@gov.wales)


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 39

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

The statistical release *Budgeted Expenditure on Special Educational Needs (SEN) Provision: 2016-17* <http://gov.wales/docs/statistics/2016/160630-budgeted-expenditure-special-educational-needs-provision-2016-17-en.pdf> analyses the budgeted expenditure data supplied by Welsh LAs in respect of SEN provision for 2016-17. Total expenditure on SEN provision is budgeted to be £362 million, an increase of £5.4 million or 1.5% compared with the previous year (table 1 and chart 2).

The Welsh Government is committed to creating an inclusive education system for all learners, regardless of their needs and background, to ensure that they are able to access the highest standard of education and reach their full potential. This is an overarching aim of our Additional Learning Needs Transformation Programme, a fundamental aspect of which is the forthcoming Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Bill, which I recently announced will be introduced into the National Assembly before the Christmas recess. The legislation will provide for a new legal framework for supporting children and young people up to the age 25 who have additional learning needs and require different forms of educational provision in order to meet those needs. This would include provision appropriate and necessary to meet the needs of children and young people.



**Alun Davies AC/AM**

Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes  
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language

## **P-05-722 Protect Special Educational Needs – Correspondence from the Petitioner to the Chair, 06.12.16**

Dear Chair,

Thank you for forwarding me correspondence from the Minister for Lifelong Learning and Welsh Language, and for inviting me to respond.

My first observation is that if my experience and the experiences of other parents with autistic children is commonplace, then the system as outlined by the minister does not work on the ground – and it most certainly doesn't work in Neath Port Talbot. Each year, we are all forced into the frankly inhumane process of competing against one another so that our children are given placements. I have heard many of them say again and again that it is harder to secure proper arrangements for their children than it is to care for them. This means that the system is not fit for purpose. At the end of the day, services are supposed to be for service users, not for the benefit of those who run them.

I also believe the system is open to abuse. Increasing funding across the board doesn't mean that ALL local authorities have spent more. I note that the minister does not elaborate on what each local authorities spend on autism services/SENs. If there was, say, a sharp rise in spending in Cardiff but a drop in Neath Port Talbot, then that would make the figures look good but at the end of the day it doesn't mean an end to the problems that parents like myself are facing.

While any increase in funding is welcome, is it enough to meet the need? This has to be the fundamental question for the Welsh Government as funding provider – is the money doing the job?

To that end, how does the Welsh Government test and measure whether its funding is meeting the outcome? It may be for local authorities to decide how to spend it, but it is the job of the Welsh Government, as funding provider, to ensure that money is properly spent. I see no evidence of that in this correspondence.

Lastly, the minister mentions the forthcoming Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Bill, but gives no reassurances that the concerns that have driven this petition will be addressed in this legislation. Consequently, it would not make sense for me to withdraw the petition on the basis of the scant information provided in the minister's correspondence.

Kindest Regards

Nicola Butterfield

## Eitem 2.3

### **P-05-724 – Hawliau i ofal iechyd sylfaenol yn Gymraeg**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Cymdeithas yr Iaith ar ôl casglu 766 llofnod bapur.

#### **Geiriad y ddeiseb**

Galwn ar Lywodraeth Cymru i ailedrych ar y Safonau arfaethedig ym maes iechyd i gynnwys darparwyr gwasanaethau iechyd sylfaenol, megis meddygfeydd a fferyllfeydd, er mwyn sicrhau bod gan bobl hawliau cadarn a chyflawn yn y maes hollbwysig hwn.

# Papur Briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil ar gyfer y Pwyllgor Deisebau

Y Pwyllgor Deisebau | 13 Rhagfyr 2016

**Rhif y ddeiseb:** P-05-724

**Teitl y ddeiseb:** Hawliau i Ofal Iechyd Sylfaenol yn y Gymraeg

**Testun y Ddeiseb:** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych eto ar y safonau arfaethedig ar gyfer y maes iechyd, gan gynnwys darparwyr gwasanaethau iechyd sylfaenol megis meddygfeydd a fferyllfeydd, i sicrhau bod gan bobl hawliau llawn a chadarn yn y maes hollbwysig hwn.

## Y cefndir

Yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, newidiwyd y fframwaith cyfreithiol o ran darpariaeth y Gymraeg mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Daeth [ymgyngoriad](#) Llywodraeth Cymru ar y Rheoliadau drafft i bennu Safonau'r Gymraeg ar gyfer y sector iechyd i ben ar 14 Hydref 2016. Bydd y safonau hyn yn rhoi'r grym i Gomisiynydd y Gymraeg osod dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg ar Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd Lleol yng Nghymru. Tan hynny, bydd Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd yn parhau i weithredu'n unol â chynllun iaith Gymraeg (sy'n ddyletswydd a osodwyd ar sefydliadau yn y sector iechyd yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993).

## Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru wedi bod yn cynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â chynlluniau iaith Gymraeg a chynllun Llywodraeth Cymru '[Mwy na geiriau](#)'. Er mwyn sicrhau bod gan siaradwyr Cymraeg fwy o hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd, mae Llywodraeth Cymru'n cyflwyno rheoliadau i wneud yn saff bod hyn yn digwydd. Unwaith y bydd y rheoliadau wedi cael eu cymeradwyo gan y Cynulliad, bydd gan Gomisiynydd y Gymraeg yr awdurdod i roi hysbysiadau cydymffurfio i sefydliadau sydd wedi'u henwi yn y rheoliadau. Mae'r hysbysiadau cydymffurfio hyn yn esbonio pa safonau a gaiff eu cyflwyno ynghyd â'r lefel cydymffurfio a safon gwasanaeth y mae disgwyl i sefydliadau ymgynghoriad â nhw.

Bydd sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynnig trwy gyfrwng y Gymraeg yn her i'r sector, yn arbennig oherwydd nifer ac ystod y gwahanol wasanaethau iechyd yng Nghymru. Bydd angen i sefydliadau weithio'n wahanol yn y dyfodol. Dyma'r gwasanaethau iechyd a gaiff eu heffeithio gan y safonau: Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd Lleol, Cynghorau Iechyd Cymuned, Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG, a chyrrff arolygu. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cynnal ymchwiliad safonau i benderfynu pa safonau y dylid eu cymhwyso i bob gwahanol fath o wasanaeth iechyd. Ni fydd pob un o'r safonau'n berthnasol ar gyfer pob sefydliad, ond bwriedir iddynt wella



gwasanaethau Cymraeg ar draws y sector, cryfhau'r cynnig gweithredol (hynny yw, cynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, nid eu cynnig pan fo rhywun yn gofyn yn unig), ei gwneud yn eglur beth yn union y mae disgwyl i'r gwasanaethau iechyd eu cynnig i'r cyhoedd, a gosod safonau tebyg ar fathau tebyg o wasanaethau iechyd.

Fodd bynnag, ni fydd y safonau'n berthnasol mewn rhai amgylchiadau. Ymysg yr eithriadau hyn mae galwadau 999 ac ysbytai preifat. Mae cyflwyno Safonau'r Gymraeg ar gyfer gofal sylfaenol, gan gynnwys meddygfeydd, deintyddfeydd, fferyllfeydd a gwasanaethau optegol yn gymhleth gan fod nifer ohonynt yn cynnig gwasanaethau preifat hefyd. Mae'r drafft o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif [Y sector iechyd]) 2016, yn nodi:

---

Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio â'r safonau—

(a) pa un a yw'n cyflawni'r gweithgaredd neu'n ddarparu'r gwasanaeth; neu

(b) pa un a yw'n cael ei gyflawni neu'n cael ei ddarparu ar ei ran gan drydydd parti o dan drefniadau a wneir rhyngddynt hwy.

---

Byddai ddarparwyr gwasanaethau gofal sylfaenol, at y diben hwn, yn cael eu hystyried fel trydydd parti. Fodd bynnag, â'r Rheoliadau drafft ymlaen i nodi:

---

Pan fo'r trydydd parti yn ddarparwr gofal sylfaenol, yn ysbyty preifat yng Nghymru neu'n ysbyty y tu allan i Gymru, yna nid yw unrhyw safonau yn gymwys.

Where the body is providing primary care services, only some standards will apply (see standards 83 to 97).

---

Mae'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y safonau wrthi'n cael eu hadolygu.

## Gwybodaeth ddefnyddiol

Adroddiad ymchwiliad statudol cyntaf Comisiynydd y Gymraeg, Fy Iaith, Fy Iechyd: Ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg i Ddarpariaeth y Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol (Mehfin 2014)





Ein cyf ARD/05457/16

Mike Hedges AC  
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

[government.committee.business@wales.gsi.gov.uk](mailto:government.committee.business@wales.gsi.gov.uk)

16 Tachwedd 2016

Alun! Mike,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Tachwedd, i'r Ysgrifennydd Cabined dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ynglŷn â Deiseb P-05-724 Hawliau i Ofal Iechyd Sylfaenol yn Gymraeg. Gofynnwyd i mi ymateb.

Rwy'n ymwybodol o'r ddeiseb yma gan iddi gael ei chyflwyno fel rhan o ymateb Cymdeithas yr Iaith i ymgynghoriad ar Reoliadau drafft sy'n pennu Safonau'r Gymraeg ar gyfer y sector iechyd. Ymysg materion eraill roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar y safonau arfaethedig newydd ar gyfer gofal sylfaenol, i'w gosod ar y byrddau iechyd, mewn ymateb i gasgliad Comisiynydd y Gymraeg '*... rhaid i ddarparwyr gofal sylfaenol fod yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg o dan yr un fframwaith statudol â'r sefydliadau iechyd a fu'n destun i'r ymchwiliad safonau hwn...*'

Nawr bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben byddaf yn ystyried yr holl ymatebion ynghyd â'r ddeiseb oddi wrth Gymdeithas yr Iaith cyn gosod Rheoliadau drafft o flaen y Cynulliad i'w hystyried. Mae sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn ganolog i'r sector iechyd yn heriol ond rwy'n ymroddedig i symud y broses ymlaen a sicrhau mwy o gyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith o fewn y sector iechyd.

Alun

Alun Davies AC/AM  
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes  
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru)  
[Correspondence.Alun.Davies@gov.wales](mailto:Correspondence.Alun.Davies@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Eitem 2.4

**P-05-725 – Ehangu'r A470 o Bontypridd i gyfnewidfa Coryton, i fod â thair lôn.**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Geraint Williams, ar ôl casglu llofnodion

### **Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cymru i fuddsoddi yn un o'r prif ffyrdd i'r brifddinas drwy ehangu'r ffordd ddeuol bresennol i fod â thair lôn o Bontypridd i gyfnewidfa Coryton.

Ceir llawer iawn o dagfeydd ar y ffordd bresennol yn y bore ac yn yr hwyr yn ystod yr wythnos, gan achosi trafferth i fodurwyr sy'n teithio rhwng y Cymoedd a'r ddinas. Credir bod hon yn ffactor allweddol sy'n cyfyngu ar ffyniant pobl a busnesau Caerdydd, yn ogystal â Chymoedd y Rhondda, Rhymni, Merthyr a Chaerffili, sy'n dibynnu ar gysylltiadau ffordd da â'r M4 a'r ddinas.

Mae'r tagfeydd yn arbennig o wael ar y ffordd tua'r de o Bontypridd oherwydd sawl ffactor, gan gynnwys traffig yn ciwio i ymuno â'r M4 yng nghyfnewidfa Coryton a'r nifer fawr o geir sy'n ymuno â'r traffig o Ferthyr ac Aberdâr ym Mhontypridd, Upper Boat, Nantgarw a Thongwynlais. Nid yw'r ffordd yn gallu ymdopi â'r holl draffig sy'n dod o Gymoedd y Rhondda a Chaerffili.

O gyfnewidfa Coryton tua'r gogledd, mae'r ffordd ychydig yn well. Fodd bynnag, mae'r holl draffig sy'n ymuno â'r ffordd o'r M4 yn achosi dryswch ac oedi i ddefnyddwyr y ffyrdd yng nghyfnewidfa Coryton. Mae'r ffordd wedyn yn parhau i wynebu tagfeydd a'r traffig yn parhau i symud yn araf hyd nes iddi gyrraedd Pontypridd, pan mae llawer o draffig wedi gadael y ffordd ar hyd ffyrdd ymuno ac ymadael amrywiol. Pan fydd tagfeydd ar y ffyrdd ymuno ac ymadael eu hunain (fel yn Nantgarw ac Upper Boat), mae llif y traffig yn eithriadol o araf.

Er nad oes unrhyw ddata ar gael ar hyn o bryd, gellir damcaniaethu y byddai'r gymhareb cost a budd ariannol a fyddai'n deillio o'r buddsoddiad

hwn mewn seilwaith yn y rhanbarth yn gadarnhaol, ac rydym yn gobeithio y bydd y Llywodraeth o leiaf yn ystyried y cynnig hwn.

## Deiseb: Ehangu'r A470 o Bontypridd i gyfnewidfa Coryton, i fod â thair lôn

Y Pwyllgor Deisebau | 13 Rhagfyr 2016  
Petitions Committee | 13 December 2016

### Briff ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-725

Teitl y ddeiseb: Ehangu'r A470 o Bontypridd i gyfnewidfa Coryton, i fod â thair lôn

Testun y ddeiseb: Rydym yn galw ar Gynulliad Cymru i fuddsoddi yn un o'r prif ffyrdd i'r brifddinas drwy ehangu'r ffordd ddeuol bresennol i fod â thair lôn o Bontypridd i gyfnewidfa Coryton.

Ceir llawer iawn o dagfeydd ar y ffordd bresennol yn y bore ac yn yr hwyr yn ystod yr wythnos, gan achosi trafferth i fodurwyr sy'n teithio rhwng y Cymoedd a'r ddinas. Credir bod hon yn ffactor allweddol sy'n cyfyngu ar ffyniant pobl a busnesau Caerdydd, yn ogystal â Chymoedd y Rhondda, Rhymni, Merthyr a Chaerffili, sy'n dibynnu ar gysylltiadau ffordd da â'r M4 a'r ddinas.

Mae'r tagfeydd yn arbennig o wael ar y ffordd tua'r de o Bontypridd oherwydd sawl ffactor, gan gynnwys traffig yn ciwio i ymuno â'r M4 yng nghyfnewidfa Coryton a'r nifer fawr o geir sy'n ymuno â'r traffig o Ferthyr ac Aberdâr ym Mhontypridd, Glan-bad, Nantgarw a Thongwynlais. Nid yw'r ffordd yn gallu ymdopi â'r holl draffig sy'n dod o Gyfoedd y Rhondda a Chaerffili.

O gyfnewidfa Coryton tua'r gogledd, mae'r ffordd ychydig yn well. Fodd bynnag, mae'r holl draffig sy'n ymuno â'r ffordd o'r M4 yn achosi dryswch ac oedi i ddefnyddwyr y ffyrdd yng nghyfnewidfa Coryton. Mae'r ffordd wedyn yn parhau i wynebu tagfeydd a'r traffig yn parhau i symud yn araf hyd nes iddi gyrraedd Pontypridd, pan mae llawer o draffig wedi gadael y ffordd ar hyd ffyrdd ymuno ac ymadael amrywiol. Pan fydd tagfeydd ar y ffyrdd ymuno ac ymadael eu hunain (fel yn Nantgarw a Glan-bad), mae llif y traffig yn eithriadol o araf.

Er nad oes unrhyw ddata ar gael ar hyn o bryd, gellir damcaniaethu y byddai'r gymhareb cost a budd ariannol a fyddai'n deillio o'r buddsoddiad hwn mewn seilwaith yn y rhanbarth yn gadarnhaol, ac rydym yn gobeithio y bydd y Llywodraeth o leiaf yn ystyried y cynnig hwn.

## Y cefndir

Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod priffyrdd ar gyfer rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd Cymru. Hi sy'n gyfrifol am gynnal a chadw a gwella'r rhwydwaith, gan gynnwys yr A470, a ddisgrifir gan [Llywodraeth Cymru](#) fel a ganlyn: "ein prif gefnffordd sy'n cysylltu gogledd a de Cymru."

Gweinidogion Cymru (Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith) sydd â'r cyfrifoldeb statudol, ond dau asiant cefnffyrdd Cymru sydd â chyfrifoldeb dros weithredu bob dydd, cynnal a chadw a mân welliannau i'r rhwydwaith:

- [Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru](#); ac
- [Asiant Cefnffyrdd De Cymru](#).

Fel rhan o'u cyfrifoldebau gweithredol, mae yr asiantau yn rheoli tîm o [Swyddogion Traffig](#) i reoli digwyddiadau ar y rhwydwaith i leihau effaith tagfeydd.

Mae'r asiantau yn gweithredu mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol. Symudwyd eu swyddogaeth gynllunio canolog i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2015, fel y'i cyhoeddwyd gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth mewn [datganiad yn y Cyfarfod Llawn](#) ar 11 Tachwedd 2014, a hynny yn sgil casgliad adolygiad o reoli a gweithredu traffyrdd a chefnffyrdd yng Nghymru. **Caiff cynlluniau ffyrdd newydd a chynlluniau gwellau ffyrdd eu cynllunio, eu rheoli a'u darparu yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.**

Mae [Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol 2015](#) (y CCTC) yn nodi sut y mae Llywodraeth Cymru'n cynnig cyflawni'r canlyniadau a nodwyd yn y [Strategaeth Drafnidiaeth Cymru](#) rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2020 (y tymor byr) a'r tu hwnt (y tymor canolig). Mae'r cynllun yn darparu amserlenni ar gyfer ariannu a chyflawni cynlluniau a ymgwymerir gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n nodi ffynonellau cyllido posibl ac yn rhestru'r prosiectau a fydd yn ceisio cyllid o dan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

## Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Nid yw'r CCTC yn pennu dim o ran darparu cynllun i ehangu'r A470 rhwng Pontypridd a Coryton yn y tymor byr nac yn y tymor canolig. Fodd bynnag, mae amserlen cyflawni'r CCTC yn nodi gwelliannau i'r coridor blaenoriaeth i fysiau ar yr A470 rhwng Pontypridd a Chaerdydd, system gylchu'r A470 yn Sardis a system gylchu'r A470 yng Nglan-bad i'w cyflawni yn 2015/16 mewn perthynas â cham 1 o'r Metro (cyfeirnod CCRM5, gweler CCTC tudalen 35).

Mae'r gwelliannau hyn, ynghyd â chynlluniau perthnasol eraill a ddarperir gan y CCTC ac awdurdodau eraill, wedi cael eu hamlygu yn y llythyr at y Cadeirydd oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ynghylch y ddeiseb hon. Dywed y llythyr:

We have undertaken a number of improvements to help relieve congestion on the A470 between Pontypridd and Cardiff and in the Radyr and Coryton area. These include our most recent schemes at junction 32 of the M4 and improvements to the traffic signals at Coryton gyratory.

Works at the interchange at Upper Boat have recently been completed by Rhondda Cynon Taff County Borough Council and include further traffic signals on the Upper Boat roundabout, lane segregation, widening works, controlled pedestrian crossings, new road markings and enhanced signing. These works aim to increase the flow of traffic in the area and reduce queue lengths from the roundabout onto the A470

Cwblhawyd y gwaith ar [broiect Cyfnewidfa Cyffordd 32 Coryton yr M4](#) ym mis Awst 2014 ac fe'i hagogwyd yn swyddogol ym mis Medi 2015. Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae'r cynllun wedi gwella capasiti, a daeth arolwg traffig a gynhaliwyd ar ôl i'r cynllun gael ei gwblhau i'r casgliad bod:

y cynllun yn gyffredinol wedi bod yn llwyddiant, a hynny'n cyd-fynd â chanlyniadau'r model gwreiddiol. Dengys yr adolygiad bod y cynllun wedi helpu i wella llif y traffig ar y gylchfan, sy'n gweld tagfeydd a chiwiau hir yn ystod yr oriau brig. Mae'r lôn benodedig newydd wedi lleddfu'r ciwio a'r oedi ar y ffordd ymadael yr M4 tua'r gorllewin wrth y gyffordd hon, gan arbed amser teithio a gwella dibynadwyedd amser teithio. Yn ogystal, mae'r cynllun wedi gwella'r rhwydwaith ffyrdd lleol drwy wella'r mynediad wrth gyffyrdd y gylchfan.

Buddsoddodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o £9.3 miliwn yng nghynllun [system gylchu Heol Sardis a system gylchu Glan-bad](#) sy'n gysylltiedig a Metro Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Dywed y llythyr hefyd fod y ddarpariaeth ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus a chyfleusterau parcio a theithio wedi cael ei gwella ynghyd ag ehangu'r [Gwasanaeth Swyddogion Traffig](#) (i gynnwys ardaloedd Radur a Ffynnon Taf) a bwrw ymlaen â'r cynigion o ran Metro De Cymru. Mae trosbontydd, waliau cynnal, yr amgylchedd lleol a'r tirwedd lleol yn cael eu rhestru fel 'severe physical constraints' a fyddai'n gwneud cynllun i ehangu'r heol yn yr ardal hon yn 'particularly complex, environmentally intrusive and costly'. Dywed yr Ysgrifennydd Cabinet fod Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu rhaglen i fynd i'r afael â thagfeydd "at the most heavily congested locations on the trunk road network".

## Camau gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mewn ymateb i gwestiwn yn [y Cyfarfod Llawn ar 12 Gorffennaf 2016](#), yn dilyn ei ddatganiad ar flaenoriaethau'r Llywodraeth, dywedodd y Prif Weinidog:

mae'r metro'n hynod bwysig. Nid oes dim ffordd, er enghraifft, o ganfod ateb i dagfeydd ar yr A470 drwy ledur'r ffordd. Mae'n amhosibl, oherwydd y ffordd y mae'r ffordd yn culhau tuag at Gaerdydd. Felly, bydd yn hynod bwysig gweld y metro'n cael ei sefydlu ar draws y de, ac, yn wir, edrych ar gysyniad Metro'r Gogledd, i wneud yn siŵr bod hwnnw'n cael ei ddatblygu hefyd, oherwydd rydym yn gwybod bod gwella trafndiaeth gyhoeddus yn rhan bwysig o ddatrys problemau â thraffig ar y ffordd.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Ken Skates AC/AM  
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith  
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-725  
Ein cyf/Our ref KS/07107/16

Mike Hedges AM  
Chair - Petitions Committee

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

21 November 2016

Dear Mike,

Thank you for your letter of 2 November regarding Petition P-05-725 – Widen the A470 from Pontypridd to Coryton to 3 lanes.

We have undertaken a number of improvements to help relieve congestion on the A470 between Pontypridd and Cardiff and in the Radyr and Coryton area. These include our most recent schemes at junction 32 of the M4 and improvements to the traffic signals at Coryton gyratory.

Works at the interchange at Upper Boat have recently been completed by Rhondda Cynon Taff County Borough Council and include further traffic signals on the Upper Boat roundabout, lane segregation, widening works, controlled pedestrian crossings, new road markings and enhanced signing. These works aim to increase the flow of traffic in the area and reduce queue lengths from the roundabout onto the A470.

Public transport provision and park and ride facilities have been improved, and the Traffic Officer Service has been extended to include the Radyr and Taffs Well area of the A470, to assist where incidents occur, coordinating the resources of the emergency services, managing the traffic and re-opening routes as soon as it is safe to do so.

We are also progressing with our South Wales Metro proposals and these include bus corridor and capacity improvements. Further details about the Metro can be found at the following link: <http://gov.wales/topics/transport/public/metro/?lang=en>.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru)  
[Correspondence.Ken.Skates@gov.wales](mailto:Correspondence.Ken.Skates@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 52  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

There are severe physical constraints in the form of overbridges, retaining walls and the local environment and topography which would make a widening scheme on the A470 from Pontypridd to Coryton particularly complex, environmentally intrusive and costly. We are however assessing the degree of traffic congestion in this road corridor and are in the early stages of developing a programme to tackle the congestion at the most heavily congested locations on the trunk road and motorway network in Wales.

*Yours ever,*

*Ken*

**Ken Skates AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith  
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

## Eitem 2.5

### P-05-726 – Rhoi Rhyddhad Ardrethi i Awdurdodau Lleol ar gyfer Cyfleusterau Hamdden a Diwylliannol

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Ryan Dansie, ar ôl casglu llofnodion

#### Geiriad y ddeiseb

Oherwydd y pwysau cynyddol ar gyllidebau, mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn ystyried creu ymddiriedolaethau elusennol i gymryd drosodd y gwaith o redeg gwasanaethau cyhoeddus fel llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden.

Y brif fantais o drefniant o'r fath yw'r rhyddhad ardrethi y byddai gan elusen hawl i'w gael. Mae hyn gyfystyr â symud arian o'r gronfa ganolog o ardrethi annomestig ac i gyllideb yr awdurdodau. Nid oes unrhyw arian cyhoeddus yn cael ei arbed yn gyffredinol, er bod gorbenion sy'n gysylltiedig â sefydlu trefniadau o'r fath a all gynnwys gwneud taliadau i ymgynghorwyr preifat arbenigol.

Mae Cyngor Sir Penfro ar fin dechrau'r broses o greu elusen i gymryd drosodd y gwaith o redeg yr holl wasanaethau hamdden a diwylliannol yn y sir gyfan. Mae bron yn anochel y bydd awdurdodau lleol eraill yng Nghymru yn gwneud yr un peth er mwyn ymdrin â'r pwysau amhosibl ar eu cyllidebau eu hunain.

Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i newid y rheolau rhyddhad ardrethi fel bod yr holl gyfleusterau hamdden a diwylliannol a gaiff eu rhedeg gan awdurdodau lleol yn cael eu hystyried yn yr un modd ag elusen. Os na chaiff hyn ei wneud, collir yr incwm ardrethi busnes hwn o hyd drwy greu'r ymddiriedolaethau elusennol hyn, ond byddwn yn colli rheolaeth ar ein gwasanaethau cyhoeddus yn ddiangen yn y broses.

Dylid cael gwared ar y cymhelliant diangen hwn i allanoli ein gwasanaethau hamdden a diwylliannol pwysig. Er nad oes unrhyw ddata ar gael ar hyn o bryd, gellir damcaniaethu y byddai'r gymhareb cost a budd ariannol a fyddai'n deillio o'r buddsoddiad hwn mewn seilwaith yn y rhanbarth yn gadarnhaol, ac rydym yn gobeithio y bydd y Llywodraeth o leiaf yn ystyried y cynnig hwn.

## Papur Briffio ar gyfer y Pwyllgor Deisebau

Y Pwyllgor Deisebau | 13 Rhagfyr 2016  
Petitions Committee | 13 December 2016

Rhif y ddeiseb: P-05-726

Teitl y ddeiseb: Rhoi Rhyddhad Ardrethi i Awdurdodau Lleol ar gyfer Cyfleusterau Hamdden a Diwylliannol

Testun y ddeiseb: Oherwydd y pwysau cynyddol ar gyllidebau, mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn ystyried creu ymddiriedolaethau elusennol i gymryd drosodd y gwaith o redeg gwasanaethau cyhoeddus fel llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden.

Y brif fantais o drefniant o'r fath yw'r rhyddhad ardrethi y byddai gan elusen hawl i'w gael. Mae hyn gyfystyr â symud arian o'r gronfa ganolog o ardrethi annomestig ac i gyllideb yr awdurdodau. Nid oes unrhyw arian cyhoeddus yn cael ei arbed yn gyffredinol, er bod gorbenion sy'n gysylltiedig â sefydlu trefniadau o'r fath a all gynnwys gwneud taliadau i ymgynghorwyr preifat arbenigol.

Mae Cyngor Sir Penfro ar fin dechrau'r broses o greu elusen i gymryd drosodd y gwaith o redeg yr holl wasanaethau hamdden a diwylliannol yn y sir gyfan. Mae bron yn anochel y bydd awdurdodau lleol eraill yng Nghymru yn gwneud yr un peth er mwyn ymdrin â'r pwysau amhosibl ar eu cyllidebau eu hunain.

Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i newid y rheolau rhyddhad ardrethi fel bod yr holl gyfleusterau hamdden a diwylliannol a gaiff eu rhedeg gan awdurdodau lleol yn cael eu hystyried yn yr un modd ag elusen. Os na chaiff hyn ei wneud, collir yr incwm ardrethi busnes hwn o hyd drwy greu'r ymddiriedolaethau elusennol hyn, ond byddwn yn colli rheolaeth ar ein gwasanaethau cyhoeddus yn ddiangen yn y broses.

Dylid cael gwared ar y cymhelliant diangen hwn i allanoli ein gwasanaethau hamdden a diwylliannol pwysig.

### Y cefndir

Mae [Adrannau 43\(5\) a \(6\) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988](#) (y Ddeddf) yn darparu bod elusennau cofrestredig yn cael rhyddhad ardrethi busnes gorfodol o 80%, [gyda Llywodraeth Cymru yn ariannu hyn](#). Yn ogystal, mae gan yr awdurdod lleol lle y mae safle'r elusen

ddisgresiwn i ddyfarnu rhyddhad ar yr 20% sy'n weddill o'r ardrethi busnes rhwymedig, a hynny o dan [adrannau 47\(1\) a \(2\) o'r Ddeddf](#). Os [dyfernir unrhyw ryddhad yn ôl disgresiwn](#), mae'r awdurdod lleol yn talu 75% ohono, a Llywodraeth Cymru sy'n talu'r 25% sy'n weddill. **Pe bai'r awdurdod lleol yn trosglwyddo gwasanaethau hamdden neu ddiwylliannol i ymddiriedolaeth elusennol, yr arbedion mwyaf y gallai eu gwneud o ran ardrethi busnes felly yw 85%.** O dan [adrannau 47\(1\) a \(2\) o'r Ddeddf](#), mae'n bosibl na châi ymddiriedolaeth hamdden neu ddiwylliannol heb statws elusennol hawlio rhyddhad ardrethi gorfodol, ond gallai dderbyn hyd at 100% o ryddhad ardrethi yn ôl disgresiwn, gan ddibynnu ar benderfyniad yr awdurdod lleol.

Yn ddiweddar, [ymgyngorodd](#) Cyngor Sir Benfro ar gynigion i newid y ffordd y caiff canolfannau diwylliannol a hamdden eu rhedeg. [Yr opsiwn a ffafrir yw y bydd](#) Winckworth Sherwood, cwmni allanol sy'n darparu cyngor arbenigol i'r cyngor, yn sefydlu ymddiriedolaeth elusennol i redeg ei gwasanaethau diwylliant a hamdden. O ystyried ardrethi busnes yn benodol, mae'n amcangyfrif y bydd y dull hwn yn galluogi'r Cyngor i arbed £637,000 yn flynyddol mewn ardrethi busnes. Fodd bynnag, mae [undeb llafur UNSAIN yn gwrthwynebu'r cynlluniau hyn](#), gan nodi efallai na wireddir yr arbedion ariannol hirdymor a gynigir yn y rhagolwg hwnnw, a'r ffaith y bydd y Cyngor yn gorfod ysgwyddo costau heb fod ganddo'r pŵer i gyfarwyddo gwasanaethau.

Ceir manylion o astudiaethau achos o drosglwyddo asedau cymunedol ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae un ohonynt yn ymwneud â throsglwyddo gwasanaethau hamdden Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i [Aneurin Leisure](#) ym mis Hydref 2014. Y prif ffactorau dros drosglwyddo oedd cynnal y gwaith o gyflawni amcanion cymdeithasol, a bodloni'r gofynion yn strategaeth ariannol tymor canolig y cyngor, gan gynnwys cyflawni arbedion ardrethi busnes.

Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru [Cyflawni â llai – Gwasanaethau Hamdden](#) ym mis Rhagfyr 2015. Canfu'r adroddiad fod perchnogaeth a rheolaeth yn y sector cyhoeddus o ran darparu hamdden yn newid wrth i asedau a gwasanaethau drosglwyddo i fodelau eraill o weithredu. Fodd bynnag, nid oedd y penderfyniadau bob amser yn seiliedig ar wybodaeth gadarn. Nodir hefyd:

Mae opsiynau ymddiriedolaeth yn cael eu hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru ac yn cael eu hystyried yn gynyddol fel opsiynau sy'n cynnig amrywiaeth o fuddiannau ariannol, o ran y potensial i ddenu cyllid

grant ychwanegol ac arbedion treth a TAW posibl, yn enwedig o ran y Rhyddhad Ardrethi Annomestig Cenedlaethol.

Fodd bynnag, amlygodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol hefyd fod risgiau posibl ynghylch y model ymddiriedolaethol, megis y risg na wireddid yr arbedion disgwylidig ac y byddai angen cymhorthdal cynyddol gan y Cyngor, ac y byddai rheolaeth ddemocrataidd uniongyrchol dros y gwasanaeth yn cael ei wanhau.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil i [llyfrgelloedd ymddiriedolaethau annibynnol a llyfrgelloedd cymunedol yng Nghymru](#), a nodwyd i rai arbedion ariannol sylweddol gael eu gwneud wrth i awdurdodau lleol drosglwyddo'r cyfrifoldeb am redeg llyfrgelloedd cyhoeddus i ymddiriedolaethau annibynnol, a hynny oherwydd arbedion mewn ardrethi busnes a TAW. Fodd bynnag, noda hefyd fod oriau agor, materion a nifer yr ymwelwyr wedi gostwng mewn rhai llyfrgelloedd, yn sylweddol mewn rhai achosion.

## Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Yn 2014, comisiynodd Llywodraeth flaenorol Cymru [adolygiad arbenigol o gynlluniau cyfredol awdurdodau lleol ynghyd â'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol o ran darparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus](#). Yn dilyn yr adolygiad, ym mis Mai 2015, cyhoeddodd ganllawiau ar [reoli llyfrgelloedd cymunedol](#) ac, ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd [ganllawiau arferion gorau ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol](#).

Cyhoeddodd Chwaraeon Cymru [Cyfleusterau ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: Glasbrint ar gyfer chwaraeon a hamdden egnïol yng Nghymru](#) ym mis Ebrill 2016. Nododd:

- Rhaid gweithredu er mwyn adolygu'r momentwm presennol sydd wedi arwain at benderfyniadau seiliedig ar arian mewn perthynas â modelau gweithredu yn y dyfodol – gyda'r prif gymhellant yn cael ei seilio ar sicrhau arbedion treth ar unwaith;
- Os caiff cyfleusterau eu trosglwyddo gan Awdurdodau Lleol i fenter gymunedol neu gymdeithasol newydd, rhaid cynnal adolygiad ymlaen llaw o'r stoc o gyfleusterau.

Ar 26 Tachwedd, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor mewn perthynas â'r ddeiseb hon. Yn y llythyr, dywedodd:

Looking forward, I am keen to explore different options for how the non-domestic rates system could operate in the future. Introducing a new form of non-domestic rates relief could add to the complexity of the system and to the costs of administration for local authorities. Such factors would need to be taken into careful consideration in developing the system.

The current rates system applies to all forms of non-domestic property, with a few specific exemptions. This includes most forms of public property. Charitable organisations receive rates relief because of their designated status as charities. There would need to be a clear rationale for extending relief to public property or particular types of public property. One consideration which would need to be taken into account would be the potential effect on the economy and the risk of distorting market conditions, particularly in areas such as leisure where there is a considerable

market for private sector provision. It would be inappropriate for local authorities to be able to grant rates relief to properties they own, particularly if this then increased the demand on other taxpayers in the area.

## Camau gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cynhaliodd Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Pedwerydd Cynulliad ymchwiliad i [Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru](#), yn ystod 2014, ac ymdriniodd hwnnw â throsglwyddo perchnogaeth llyfrgelloedd.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Mark Drakeford AM/AC  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol  
Cabinet Secretary for Finance and Local Government



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-05-726  
Ein cyf/Our ref: MD/05457/16

Mike Hedges AM  
Chair - Petitions Committee  
National Assembly for Wales  
Ty Hywel  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1NA

[SeneddPetitions@assembly.wales](mailto:SeneddPetitions@assembly.wales)

26 November 2016

Dear Mike,

Thank you for your letter of 2 November, regarding a petition from Mr Ryan Dansie proposing that the Welsh Government should give rates relief to local authorities for leisure and cultural facilities.

Local authorities may consider and explore alternative models for delivering certain local services, provided there is a robust assessment of the costs and benefits to the service. The authority also needs to demonstrate that it has actively engaged with and consulted its citizens to ensure that the alternative approach benefits the local community.

A number of local authorities have already implemented or are considering measures for charitable trusts or other delivery providers to facilitate the running of a range of local services. There can be benefits for citizens and local authorities in adopting such an approach. The availability of charitable relief is one of many considerations. Alternative forms of delivery can offer improved services, for example from specialist providers, and lower running costs. Importantly, they can ensure that a service continues to be delivered where it might otherwise be unsustainable. Such models do not necessarily remove the service from public control. Where a service continues to be funded from a local authority's budget, the authority remains responsible for the oversight of the service, for specifying the level of service required and for ensuring the authority secures the best value for money for its residents.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru)  
[Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales](mailto:Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 60**

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

By way of background, the non-domestic rates system is operated through a collective pooling process in which all the rates collected by billing authorities in Wales are pooled together with those collected centrally and redistributed to local authorities to fund local services. This means any fluctuations in the revenue generated through non-domestic rates are managed across Wales. In addition, the annual funding settlement for local authorities is allocated using a detailed formula which reflects the relative need for services in each area. This formula takes account of the non-domestic rates to be distributed to each area. The provisional local government settlement for 2017-18, which I announced on 19 October, provides the first cash increase in the core funding for local government since 2013-14.

Looking forward, I am keen to explore different options for how the non-domestic rates system could operate in the future. Introducing a new form of non-domestic rates relief could add to the complexity of the system and to the costs of administration for local authorities. Such factors would need to be taken into careful consideration in developing the system.

The current rates system applies to all forms of non-domestic property, with a few specific exemptions. This includes most forms of public property. Charitable organisations receive rates relief because of their designated status as charities. There would need to be a clear rationale for extending relief to public property or particular types of public property. One consideration which would need to be taken into account would be the potential effect on the economy and the risk of distorting market conditions, particularly in areas such as leisure where there is a considerable market for private sector provision. It would be inappropriate for local authorities to be able to grant rates relief to properties they own, particularly if this then increased the demand on other taxpayers in the area.

I will be considering improvements to the non-domestic rates system for 2018-19 onwards to ensure the system best meets the needs of the people of Wales, is fair to taxpayers and ensures the sustainable funding of local services. I will be engaging and consulting widely with stakeholders and welcome the views of all interested parties.

Best wishes,

Mark

**Mark Drakeford AM/AC**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol  
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

## Eitem 2.6

**P-05-727 – Arian i dalu ffi cofrestru Cyngor y Gweithlu Addysg ar ran Gweithwyr Cymorth Dysgu mewn Ysgolion.**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan UNISON Cymru Wales ar ôl casglu llofnodion

### **Geiriad y ddeiseb**

Ers mis Ebrill 2016, mae Gweithwyr Cymorth Dysgu mewn ysgolion a cholegau yng Nghymru yn gorfod cofrestru â'r Cyngor Gweithlu Addysg – y corff sydd hefyd yn rheoleiddio athrawon a darlithwyr addysg bellach.

Eleni, y gwir ffi cofrestru a godwyd ar Weithwyr Cymorth Dysgu oedd £15. £45 oedd y ffi a godwyd ar staff dysgu a darlithio. Nid yw'r ffi a godir fis Ebrill 2017 yn glir eto. O ganlyniad i waith lobïo gan UNSAIN, cytunodd 12 o awdurdodau lleol i dalu'r ffi ar ran Gweithwyr Cymorth Dysgu mewn ysgolion yn 2016, naill ai'n llawn neu'n rhannol, gan gydnabod bod cyflogau'r gweithwyr hyn ymhlith yr isaf yn y sector cyhoeddus, yn bennaf oherwydd eu statws fel gweithiwr sy'n gweithio yn ystod tymor yn unig.

Hyd yma, mae cylch gorchwyl Cyngor y Gweithlu Addysg yn ymwneud yn bennaf ag athrawon a darlithwyr sy'n cael cyflogau llawer uwch na Gweithwyr Cymorth Dysgu.

Merched yw'r rhan fwyaf o Weithwyr Cymorth Dysgu, ac mae'r mwyafrif helaeth yn cael eu talu i weithio yn ystod y tymor yn unig, yn wahanol i athrawon a darlithwyr; mae eu cytundebau'n fwy tebygol o fod yn gytundebau am dymor penodol ac o fod ar drugaredd toriadau yng nghyllideb yr ysgol. Mae gan nifer ohonynt fwy nag un swydd eisoes.

Dylid cydnabod yr awdurdodau lleol hynny a ymrwymodd i dalu'r ffi'r llynedd. Ond, ar adeg pan mae cyllidebau'n tynhau o hyd, nid oes unrhyw sicrwydd y caiff ei dalu ym mis Ebrill 2017. Rhaid clustnodi arian ychwanegol yn y setliad llywodraeth leol i sicrhau nad oes disgwyl i Weithwyr Cymorth Dysgu ysgwyddo cost y ffi cofrestru fis Ebrill nesaf.

Oherwydd y rhesymau hyn, rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i Glustnodi arian yn y setliad llywodraeth leol i ariannu ffi cofrestru Cyngor y Gweithlu Addysg ar ran Gweithwyr Cymorth Dysgu mewn ysgolion ym mis Ebrill 2017

Dylid cael gwared ar y cymhelliant diangen hwn i allanoli ein gwasanaethau hamdden a diwylliannol pwysig. Er nad oes unrhyw ddata ar gael ar hyn o bryd, gellir damcaniaethu y byddai'r gymhareb cost a budd ariannol a fyddai'n deillio o'r buddsoddiad hwn mewn seilwaith yn y rhanbarth yn gadarnhaol, ac rydym yn gobeithio y bydd y Llywodraeth o leiaf yn ystyried y cynnig hwn.

# Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

**Y Pwyllgor Deisebau | 13 Rhagfyr 2016**  
**Petitions Committee | 13 December 2016**

Rhif y ddeiseb: P-05-727

Teitl y ddeiseb: Arian i dalu ffi cofrestru Cyngor y Gweithlu Addysg ar ran Gweithwyr Cymorth Dysgu mewn ysgolion

Ers mis Ebrill 2016, mae Gweithwyr Cymorth Dysgu mewn ysgolion a cholegau yng Nghymru yn gorfod cofrestru â'r Cyngor Gweithlu Addysg – y corff sydd hefyd yn rheoleiddio athrawon a darlithwyr addysg bellach.

Eleni, y gwir ffi cofrestru a godwyd ar Weithwyr Cymorth Dysgu oedd £15. £45 oedd y ffi a godwyd ar staff dysgu a darlithio. Nid yw'r ffi a godir fis Ebrill 2017 yn glir eto. O ganlyniad i waith lobio gan UNSAIN, cytunodd 12 o awdurdodau lleol i dalu'r ffi ar ran Gweithwyr Cymorth Dysgu mewn ysgolion yn 2016, naill ai'n llawn neu'n rhannol, gan gydnabod bod cyflogau'r gweithwyr hyn ymhlith yr isaf yn y sector cyhoeddus, yn bennaf oherwydd eu statws fel gweithiwr sy'n gweithio yn ystod y tymor yn unig. Hyd yma, mae cylch gorchwyl Cyngor y Gweithlu Addysg yn ymwneud yn bennaf ag athrawon a darlithwyr sy'n cael cyflogau llawer uwch na Gweithwyr Cymorth Dysgu.

Merched yw'r rhan fwyaf o Weithwyr Cymorth Dysgu, ac mae'r mwyafrif helaeth yn cael eu talu i weithio yn ystod y tymor yn unig, yn wahanol i athrawon a darlithwyr; mae eu cytundebau'n fwy tebygol o fod yn gytundebau am dymor penodol ac o fod ar drugaredd toriadau yng nghyllideb yr ysgol. Mae gan nifer ohonynt fwy nag un swydd eisoes.

Dylid cydnabod yr awdurdodau lleol hynny a ymrwymodd i dalu'r ffi'r llynedd. Ond, ar adeg pan mae cyllidebau'n tynhau o hyd, nid oes unrhyw sicrwydd y caiff ei dalu ym mis Ebrill 2017. Rhaid clustnodi arian ychwanegol yn y setliad llywodraeth leol i sicrhau nad oes disgwyl i Weithwyr Cymorth Dysgu ysgwyddo cost y ffi cofrestru fis Ebrill nesaf.

Oherwydd y rhesymau hyn, rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i glustnodi arian yn y setliad Llywodraeth Leol i ariannu ffi cofrestru Cyngor y Gweithlu Addysg ar ran Gweithwyr Cymorth Dysgu mewn ysgolion ym mis Ebrill 2017.

## Y cefndir

Mae *Deddf Addysg (Cymru) 2014* yn darparu ar gyfer sefydlu Cyngor y Gweithlu Addysg fel olynydd i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Cyn hynny, dim ond athrawon mewn ysgolion a gynhelir a oedd wedi'u cofrestru â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Sefydlwyd Cyngor y Gweithlu Addysg ar 1 Ebrill 2015. Mae'r Ddeddf yn gosod dau brif nod ar gyfer Cyngor y Gweithlu Addysg:

- cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd y dysgu yng Nghymru; a
- chynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymhlith athrawon a phersonau sy'n cefnogi addysgu a dysgu yng Nghymru.

Roedd y Ddeddf yn ymestyn y rhwymedigaeth i grwpiau ychwanegol o staff gofrestru gyda'r corff newydd - gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion, athrawon addysg bellach a gweithwyr cymorth dysgu.



Rhesymeg Llywodraeth Cymru dros sefydlu Cyngor y Gweithlu Addysg ac ymestyn y gofyniad i grwpiau gofrestru oedd yr angen am gorff gyda chylch gwaith ehangach a oedd yn adlewyrchu'n well y cydweithio agos rhwng y gwahanol sectorau o weithwyr o fewn addysg. Roedd yr enghreifftiau a ddarparwyd o'r gweithio agos hwn yn cynnwys mwy o ddefnydd o staff cymorth ysgolion (cynorthwyrwyr addysgu) a chydweithredu yn y sector ôl-16 rhwng ysgolion a cholegau.

Daeth y gofyniad i athrawon Addysg Bellach gofrestru i rym ar 1 Ebrill 2015. Ers **1 Ebrill 2016** mae'n rhaid i weithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion a gynhelir ac mewn addysg bellach hefyd gofrestru.

Mae *Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuencid, Gweithwyr Cymorth Ieuencid ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith) 2016*, a drafodwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 6 Rhagfyr 2016, yn ymestyn y gofynion cofrestru i weithwyr ieuencid ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith.

## Ffioedd cofrestru

Mae *Deddf Addysg (Cymru) 2014* yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â'r ffioedd sy'n daladwy am gofrestru gyda'r Cyngor. O dan hen Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, y ffi gofrestru flynyddol oedd £45, ac roedd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu cymhorthdal o £33.

Ym mlwyddyn gyntaf Cyngor y Gweithlu Addysg (2015-16), yr un oedd y trefniadau ffioedd ar gyfer athrawon ac roedd Llywodraeth Cymru yn rhoi cymhorthdal ar gyfer ffioedd athrawon Addysg Bellach a dalodd £18 o'r ffi o £45.

Mae'r rheoliadau presennol, *Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) (Cymru) 2016* yn cynyddu'r ffi flynyddol a delir gan athrawon o £45 i £78.

**Tabl 1: Y ffioedd cofrestru presennol**

Categori	Ffi Gofrestru	Cymhorthdal	Cyfraniad
Athro Ysgol	£78*	£33	£45
Athro AB	£49	£4	£45
GCD mewn ysgol	£49	£34	£15
GCD AB	£49	£34	£15

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, *Ffioedd cofrestru ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru (2017)*, Mehefin 2016

Mae athrawon wedi cael cymhorthdal ers tro tuag at eu ffioedd cofrestru, sy'n cael ei ad-dalu iddynt gan awdurdodau lleol yn eu cyflog. Darperir ar gyfer hyn yn Nogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol a gyhoeddir gan Lywodraeth y DU gan nad yw cyflog ac amodau gwaith athrawon yn swyddogaeth sydd wedi'i datganoli.

Yn hytrach na rhoi'r cyllid ar gyfer y cymhorthdal i awdurdodau lleol i'w drosglwyddo i athrawon, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo mewn cynlluniau i roi'r arian hwnnw i Gyngor y Gweithlu Addysg er mwyn i ffioedd **pob un** sydd wedi cofrestru gael eu gostwng, yn hytrach na dim ond darparu cymhorthdal ar gyfer athrawon. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU newid y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol.

Bu Llywodraeth Cymru yn **ymgyngori** (tan 30 Medi 2016) ar y trefniadau ar gyfer gwneud y newid hwn. Ni fyddai'r effaith net ar gyfer y rhai sy'n cofrestru ar hyn o bryd yn wahanol.



## Y camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd

Yn ôl Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 10 Tachwedd 2016:

“Mae'r ffigur llinell sylfaen diwygiedig ar gyfer 2017-18 yn cynnwys £1 miliwn sydd wedi'i drosglwyddo o'r Grant Cymorth Refeniw at ddibenion y cymhorthdal ar gyfer ffioedd cofrestru athrawon. Yn 2015, ad-drefnwyd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i greu Cyngor y Gweithlu Addysg. Yn sgil hyn cafodd cofrestru proffesiynol ei ehangu i gynnwys athrawon Addysg Bellach (AB) sy'n gweithio mewn Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru. Ers hynny mae cofrestru proffesiynol wedi cael ei ehangu ymhellach i gynnwys pob Gweithiwr Cymorth Dysgu sy'n gweithio mewn ysgolion a sefydliadau AB yng Nghymru. Bydd y trosglwyddiad yn golygu bod modd rhannu'r cymhorthdal ar gyfer ffi cofrestru athrawon Cyngor y Gweithlu Addysg rhwng pob ymarferydd addysgu.”

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Kirsty Williams AC/AM  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg  
Cabinet Secretary for Education



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-727  
Ein cyf/Our ref KW/06062/16  
Mike Hedges AM  
Chair - Petitions Committee  
National Assembly for Wales  
Ty Hywel  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

25 November 2016

Dear Mike

Thank you for your letter of 2 November about a petition set up by UNISON Cymru Wales relating to the funding of the professional registration fee for learning support workers from 1 April.

I am aware of this petition and appreciate the opportunity to share my views with you and the Committee. The Welsh Government has recently consulted on fee models for the Education Workforce Council to implement from 1 April 2017. A consultation 'summary of responses' along with a Government response will be published on the Welsh Government website shortly.

Since April 2016, the registration fee for both school and FE learning support workers, FE teachers and school teachers not employed through the School Teachers Pay and Condition Document (STPCD) has been set at £49; for school teachers employed under the STPCD, their fee is set at £78.

The Welsh Government recognises that learning support workers in Wales earn significantly less compared to school and FE teachers; and therefore provides a larger subsidy to reduce their actual fee contribution to £15. The teacher categories are provided with a smaller subsidy that reduces their actual fee contribution to £45.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 67

From 1 April 2017 and thereafter, the Welsh Government has set aside and ringed fenced £1million to subsidise the registration fee for the whole education workforce. This subsidy is aligned to the fact that Welsh Ministers set the fee level that in real terms ensures that practitioners contribution are kept low.

I am also aware that some Local Authorities are choosing pay the registration fees for their employed learning support workers. Employers of education practitioners in Wales are free to fund professional registration fees if they wish, however, this is something that is not encouraged or supported by the Welsh Government. Employers should be mindful that practitioners are already receiving a government subsidy to help reduce their registration fees.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams'.

**Kirsty Williams AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg  
Cabinet Secretary for Education

### **P-05-728- Diogelu Cyllid Teuluoedd yn Gyntaf.**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Whitehead-Ross Education and Cangen Cyngor Bwrdeistref Sirol UNSAIN Castell Nedd Port Talbot ar ôl casglu 24 llofnod.

#### **Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ddiogelu cyllideb y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf er mwyn amddiffyn y teuluoedd sydd fwyaf agored i niwed ledled Cymru, gan gynnwys yn ein hardal ni, Castell-nedd Port Talbot.

Caiff y rhaglen arloesi, Teuluoedd yn Gyntaf, ei hariannu gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo i ddatblygu systemau a chymorth amlasiantaeth effeithiol o fewn awdurdodau lleol, gyda phwyslais clir ar ymyrraeth gynnar ac atal niwed i deuluoedd, yn enwedig i'r rheini sy'n dlawd.

Ddiwedd mis Awst, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau lythyr at sylw awdurdodau lleol ynghylch dyfodol Teuluoedd yn Gyntaf, sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2017. Yn ei lythyr, amlinellodd y blaenoriaethau wrth fynd i'r afael â bylchau o ran darpariaeth gwasanaethau ar gyfer rhieni a phobl ifanc yn y dyfodol, gan gysylltu gwaith y rhaglen â'r dull o atal profiadau niweidiol i blant.

Disgwylir i Ysgrifennydd y Cabinet wneud datganiad ffurfiol ar ddyfodol y rhaglen yn yr hydref, ac ni cheir gwybod sut y caiff y gyllideb ei dyrannu ar gyfer pob awdurdod lleol tan ddiwedd Rhagfyr 2016. Â'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn dod i ben ym mis Mawrth 2017, dyma gryfhau'r achos i'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf gael ei diogelu.

Yn y flwyddyn lawn gyntaf o weithredu'r rhaglen, defnyddiwyd y cynllun 'Teulu'n Flaenaf' yng Nghastell-nedd Port Talbot i gynorthwyo bron i 100 o deuluoedd i wneud newidiadau cadarnhaol i'w bywydau a mynd i'r afael â materion cyn iddi fynd yn rhy hwyr, trwy ymyrraeth gynnar ac atal niwed. Mae'r Llywodraeth yn amcangyfrif y gall un teulu mewn trafferthion gostio

oddeutu £75,000 y flwyddyn i'r trethdalwr, felly gellir cyfrifo gwerth o £3.32 am bob £1 a wariwyd gan arbed dros £7.3 miliwn i'r economi.

Cwtogodd Llywodraeth Cymru'r grant ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf yng Nghastell-nedd Port Talbot o £260,000 ar gyfer 2016/17, â grant o £1,964,194. Defnyddiodd 2,586 o unigolion y gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf yn ystod 2015-16 yng Nghastell-nedd Port Talbot.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Aberafan
- Gorllewin De Cymru

# Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Y Pwyllgor Deisebau | 13 Rhagfyr 2016

Rhif y ddeiseb: P-05-728

Teitl y ddeiseb: Diogelu Cyllid Teuluoedd yn Gyntaf

Geiriad y ddeiseb: Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ddiogelu cyllideb y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf er mwyn amddiffyn y teuluoedd sydd fwyaf agored i niwed ledled Cymru, gan gynnwys yn ein hardal ni, Castell-nedd Port Talbot.

Caiff y rhaglen arloesi, Teuluoedd yn Gyntaf, ei hariannu gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo i ddatblygu systemau a chymorth amlasiantaeth effeithiol o fewn awdurdodau lleol, gyda phwyslais clir ar ymyrraeth gynnar ac atal niwed i deuluoedd, yn enwedig i'r rheini sy'n dlawd.

Ddiwedd mis Awst, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau lythyr at sylw awdurdodau lleol ynghylch dyfodol Teuluoedd yn Gyntaf, sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2017. Yn ei lythyr, amlinellodd y blaenoriaethau wrth fynd i'r afael â bylchau o ran darpariaeth gwasanaethau ar gyfer rhieni a phobl ifanc yn y dyfodol, gan gysylltu gwaith y rhaglen â'r dull o atal profiadau niweidiol i blant. Disgwylir i Ysgrifennydd y Cabinet wneud datganiad ffurfiol ar ddyfodol y rhaglen yn yr hydref, ac ni wyddys sut y bydd cyllid yn cael ei ddyrannu nes diwedd Rhagfyr 2016. Â'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn dod i ben ym mis Mawrth 2017, dyma gryfhau'r achos i'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf gael ei diogelu.

Yn y flwyddyn lawn gyntaf o weithredu'r rhaglen, defnyddiwyd y cynllun Teulu'n Flaenaf yng Nghastell-nedd Port Talbot i gynorthwyo bron i 100 o deuluoedd i wneud newidiadau cadarnhaol i'w bywydau a mynd i'r afael â materion cyn iddi fynd yn rhy hwyr, trwy ymyrraeth gynnar ac atal niwed. Mae'r Llywodraeth yn amcangyfrif y gall un teulu mewn trafferthion gostio oddeutu £75,000 y flwyddyn i'r trethdalwr, felly gellir cyfrifo gwerth o £3.32 am bob £1 a wariwyd gan arbed dros £7.3 miliwn i'r economi.

Cwtogodd Llywodraeth Cymru'r grant ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf yng Nghastell-nedd Port Talbot o £260,000 ar gyfer 2016-17, gan roi grant o £1,964,194. Defnyddiodd 2,586 o unigolion y gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf yn ystod 2015-16 yng Nghastell-nedd Port Talbot.



## Beth yw Teuluoedd yn Gyntaf?

Sefydlwyd rhaglen Llywodraeth Cymru, Teuluoedd yn Gyntaf, yn 2010 â'r bwriad o wella dyluniad a darpariaeth y gwasanaethau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cynnig i deuluoedd.

Amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen yw sicrhau bod:

- pobl o oedran gwaith mewn teuluoedd ar incwm isel yn ennill cyflog, ac yn datblygu o fewn y swydd
- plant, pobl ifanc a theuluoedd sydd naill ai'n dlawd neu mewn perygl o fod yn dlawd, yn cyflawni eu potensial
- plant, pobl ifanc a theuluoedd yn iach o ran eu hiechyd a'u lles
- teuluoedd yn hyderus, maethlon, cryf a saff.

Mae awdurdodau lleol yn datblygu Cynllun Gweithredu Teuluoedd yn Gyntaf sy'n egluro sut y byddant yn rhoi Teuluoedd yn Gyntaf ar waith yn lleol. Pan fo'r cynlluniau wedi cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, bydd comisiwn gwasanaethau'r awdurdodau lleol yn eu rhoi ar waith. Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn ceisio **datblygu systemau amlasiantaeth effeithiol er mwyn cefnogi teuluoedd, yn arbennig y rheini sy'n dlawd.**<sup>1</sup> Mae hefyd yn rhoi pwyslais ar **ymyrraeth gynnar ac atal niwed**, ynghyd â thynnu sefydliadau at ei gilydd i gydweithio â'r holl deulu er mwyn atal problemau rhag gwaethygu nes eu bod yn argyfyngus. Un nodwedd allweddol o'r rhaglen yw ei bod wedi'i theilwra i weddu amgylchiadau teuluoedd unigol er mwyn gwneud ymyriadau'n fwy effeithiol.<sup>2</sup>

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar [wefan Teuluoedd yn Gyntaf](#) Llywodraeth Cymru ac yng [Nghanllaw Teuluoedd yn Gyntaf](#).

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mewn llythyr yn ymateb i'r ddeiseb dan sylw, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant **na allai ymrwymo ar hyn o bryd i ariannu Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ar ôl mis Mawrth 2018**, gan fod Llywodraeth Cymru yn gweithio ar sail cyfnod cynllunio o un flwyddyn ar gyfer y gyllideb.'

Cyfeiriodd at ei **ddatganiad diweddar** ynghylch dyfodol y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, gan ddweud:

Yn dilyn cyfnod pontio y flwyddyn nesaf, **rwyf wedi penderfynu ailffocysu'r prosiectau strategol a gomisiynwyd gan Raglen Teuluoedd yn Gyntaf** er mwyn sicrhau y gallwn fynd i'r

<sup>1</sup>Llywodraeth Cymru, [Monitor Ilesiant plant a phobl ifanc Cymru](#), Rhagfyr 2015

<sup>2</sup> Ibid



afael â bylchau sydd wedi cael eu nodi ym meysydd cymorth i rieni a phobl ifanc, ac i wneud cysylltiadau clir rhwng gwaith y Rhaglen ac atal Profiadau Niweidiol Mewn Plentynodod.

Nid wyf wedi gwneud penderfyniad eto ynghylch dyfodol Cymunedau yn Gyntaf. Rydym wrthi'n ymgynghori ar hyn o bryd o ran y broses honno. Fy mwriad yw sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â thlodi a bod ein rhaglenni i gyd yn gweithio'n dda, fel y gallwn ymyrryd yn y meysydd lle rydym am weld llwyddiant. Nid wyf wedi cael fy argyhoeddi eto mai Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yw'r unig raglen a all lwyddo i drechu tlodi, a dyma pam rwyf wedi gofyn i fy nhîm edrych ar y mater yn ofalus iawn. [Ein pwyslais ni]

Gan gyfeirio at y flwyddyn ariannol nesaf, dywedodd y byddai **cyllideb Teuluoedd yn Gyntaf yn parhau ar yr un lefel a chyllideb 2016–17**. Dywedodd hefyd ei fod 'yn y broses o benderfynu sut y bydd cyllid yn cael ei ddyrannu o fewn Cyllideb Teuluoedd yn Gyntaf, a [...] bydd dyraniadau dangosol ar gyfer y Rhaglen yn cael eu hanfon at bob Awdurdod Lleol yn unol â'n hamserlen arferol ar gyfer hysbysu Awdurdodau Lleol o'u dyraniadau dangosol ar gyfer y flwyddyn i ddod. **Cyfrifoldeb pob Awdurdod Lleol fydd penderfynu ar y ffordd orau o ddyrannu ei grant ar gyfer y Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf**, gan mai'r Awdurdodau sydd yn y sefyllfa orau i sicrhau budd y teuluoedd y maent yn eu gwasanaethu.'

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Carl Sargeant AC/AM  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant  
Cabinet Secretary for Communities and Children



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-728  
Ein cyf/Our ref CS/05873/16

Mike Hedges AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

government.committee.business@cymru.gsi.gov.uk

21 Tachwedd 2016

Annwyl Mike,

Fe wnaethoch ysgrifennu ataf ar 4 Tachwedd, yn fy ngwahodd i roi fy safbwyntiau ynghylch Deiseb (P-05-728) i warchod Cyllid Teuluoedd yn Gyntaf. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i wneud sylwadau.

Bydd cyllideb Teuluoedd yn Gyntaf ar gyfer 2017-18 yn parhau ar lefelau 2016-17. Mae hyn wedi ei ddatgan yn y naratif i Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18, ac rwyf wedi ailadrodd y neges hon yn ddiweddar yng nghyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 2 Tachwedd. Rwyf yn y broses o benderfynu sut y bydd cyllid yn cael ei ddyrannu o fewn Cyllideb Teuluoedd yn Gyntaf, a gallai hyn arwain at newidiadau i ddyraniadau grant refeniw i Awdurdodau Lleol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Ar hyn o bryd, ni allaf ymrwmo i ariannu Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ar ôl mis Mawrth 2018, gan fod Llywodraeth Cymru yn gweithio ar sail cyfnod cynllunio o un flwyddyn ar gyfer y gyllideb.

Bydd dyraniadau dangosol ar gyfer y Rhaglen yn cael eu hanfon at bob Awdurdod Lleol yn unol â'n hamserlen arferol ar gyfer hysbysu Awdurdodau Lleol o'u dyraniadau dangosol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Bydd yr hysbysiau hyn yn rhoi amser i Awdurdodau Lleol orffen eu cynlluniau gweithredu ar gyfer 2017-18. Cyfrifoldeb pob Awdurdod Lleol fydd penderfynu ar y ffordd orau o ddyrannu ei grant ar gyfer y Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, gan mai'r Awdurdodau sydd yn y sefyllfa orau i sicrhau budd y teuluoedd y maent yn eu gwasanaethu.

Mae Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn rhaglen arloesol sy'n hyrwyddo datblygu systemau a chymorth amlasiantaeth effeithiol ar gyfer teuluoedd o fewn awdurdodau lleol, gyda phwyslais cryf ar atal problemau ac ymyrryd yn gynnar yn hanes teuluoedd, yn enwedig y rheini sy'n byw mewn tlodi. Mae ymyrryd yn gynnar ac atal problemau yn hanfodol os ydym am roi'r cyfleoedd gorau i blant ac i deuluoedd. Yn dilyn cyfnod pontio y flwyddyn nesaf, rwyf wedi penderfynu ailffocysu'r prosiectau strategol a gomisiynwyd gan Raglen Teuluoedd yn Gyntaf er mwyn sicrhau y gallwn fynd i'r afael â bylchau sydd wedi cael eu nodi ym meysydd cymorth i rieni a phobl ifanc, ac i wneud cysylltiadau clir rhwng gwaith y Rhaglen ac atal Profiadau Niweidiol Mewn Plentyndod.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru)  
[Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales](mailto:Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 74**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid wyf wedi gwneud penderfyniad eto ynghylch dyfodol Cymunedau yn Gyntaf. Rydym wrthi'n ymgynghori ar hyn o bryd o ran y broses honno. Fy mwriad yw sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â thlodi a bod ein rhaglenni i gyd yn gweithio'n dda, fel y gallwn ymyrryd yn y meysydd lle rydym am weld llwyddiant. Nid wyf wedi cael fy argyhoeddi eto mai Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yw'r unig raglen a all lwyddo i drechu tlodi, a dyma pam rwyf wedi gofyn i fy nhîm edrych ar y mater yn ofalus iawn.

Unwaith y byddaf wedi ystyried casgliadau'r adolygiad, byddaf wedyn yn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylem ddod â'r Rhaglen i ben ai peidio. Os gwneir penderfyniad i gau'r Rhaglen, ni fydd yn dod i ben yn sydyn ar 31 Mawrth. Yn hytrach, rwy'n rhagweld y bydd dadgomisiynu'n digwydd yn raddol, er mwyn rhoi terfyn trefnus ar y Rhaglen er budd pobl sy'n elwa ohoni yn ogystal â'r staff sy'n darparu'r gwasanaethau.

Yn gywir



**Carl Sargeant AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant  
Cabinet Secretary for Communities and Children

# Eitem 3.1

## **P-04-628 Mynediad at Iaith Arwyddion Prydain i bawb**

### **Testun y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i wella mynediad at addysg a gwasanaethau o ran iaith Arwyddion Prydain er mwyn gwella ansawdd bywyd pobl fyddar o bob oedran.

Gwella mynediad fel y gall teuluoedd ddysgu iaith Arwyddion Prydain: Pan fo plentyn yn cael diagnosis ei fod yn fyddar / yn drwm ei glyw, dylid cynnig gwersi am ddim / gwersi â chymhorthdal i'w rieni, fel y gallant ddysgu iaith Arwyddion Prydain (mae cwrs iaith Arwyddion Prydain lefel un yn costio tua £300 y pen). Drwy ddefnyddio lleferydd yn unig, mae plant byddar yn ei chael yn anodd datblygu sgiliau cyfathrebu, neu'n methu â gwneud hynny, gan fethu â chyrraedd cerrig milltir pwysig. Bydd dysgu ieithoedd eraill drwy iaith Arwyddion Prydain (Saesneg / Cymraeg) yn gwella dealltwriaeth y plentyn.

